Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

# Technegydd Offer Anadlu

**GRADD 8: CYFLOG £30,296 - £31,364**
**37 AWR YR WYTHNOS**
**GELLIR YSTYRIED RHANNU SWYDD 50/50**
**Rhif y Swydd: NU066**

Mae'r swydd wag barhaol uchod wedi codi yn yr Adran Rheoli Risg Weithredol, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX. Bydd deiliad y swydd yn ymuno â Thîm Cynnal a Chadw OA ac yn gyfrifol am gynnal a chadw ac atgyweirio holl offer anadlu'r Gwasanaeth yn unol â chyfarwyddiadau rhagnodedig y gwneuthurwr a safonau'r Gwasanaeth.

Dyletswyddau allweddol y rôl: -

- Cynnal a chadw, atgyweirio a gwasanaethu offer Offer Anadlu Gwasanaethau, gan gynnwys setiau telemetreg, byrddau rheoli mynediad, setiau achub EASE, gostyngwyr, ac offer ategol.
- Cynnal a diweddaru cofnodion profi, archebu a chaffael rhannau hanfodol ar gyfer cynnal a chadw offer trwy'r system e-gaffael, gan sicrhau bod stoc yn cael ei gynnal.
- Profi cynnal a chadw ac atgyweirio ystod o offer gweithredol, gan gynnwys helmedau tân, bagiau aer pwysedd uchel ac isel, camerâu delweddu thermol a monitorau nwy.
- Profi ffitio offer i wynebau ar gyfer anadlyddion a Chyfarpar Anadlu.
- Mynychu unrhyw hyfforddiant arbenigol neu gyrsiau ailhyfforddi mewn perthynas ag atgyweirio a chynnal a chadw Offer Anadlu, offer ategol ac offer gweithredol arall

Noder: Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

I gael gwybod mwy am y swydd hon, cysylltwch â Rheolwr Grŵp yr Adran Risg Weithredol, Tony Jackson drwy e-bost: t-jackson@decymru-tan.gov.uk neu ffonio: 01443 232159.

Rydym yn sefydliad sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ac mae system gweithio hyblyg mewn grym. I weld pa fuddion sydd ar gael o weithio gyda ni ewch i: https://www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us/benefits/

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar wiriad cofnod troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Sylwch fod hon yn broses gystadleuol dros ben a dim ond y rhai sydd wedi dangos tystiolaeth lawn yn erbyn yr holl feini prawf hanfodol ar y fanyleb person fydd yn mynd ymlaen i'r Broses Ddethol.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12:00 ganol dydd, 11/11/2024.**

**Sut i Ymgeisio**

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu ar ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni-swyddi-diweddaraf /

Os bydd angen fersiwn bapur arnoch chi mae croeso i chi gysylltu drwy law e-bost: personel@decymru-tan.gov.uk

Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio drwy law eu porthol CORE, wrth ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Nodwch fydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau drwy law'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd wrth ymgeisio.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Saesneg a Chymraeg ill dau ac rydym yn croesawu cyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**